

# Newyddion Ffair Nadolig Llandudno

Ffair Nadolig Llandudno

Rhif Cwmni Buddiant Cymunedol

10470030

MAI 2017

RHIFYN 1

## BETH YDY O?

Nid yn unig ydy Ffair Nadolig Llandudno ar yr 16<sup>eg</sup>-19<sup>eg</sup> o Dachwedd 2017 yn ddigwyddiad i arddangoswyr werthu celfyddydau a chrefftau anarferol a bwyd a diod, ond mae actorion, cantorion, cerddorion a dawnswyr amatur o bob oed hefyd yn perfformio ar y llwyfan bob dydd gyda hyd yn oed mwy o adloniant fel reidiau ffair i blant a groto Siôn Corn.

## NEWIDIADAU I'R FFAIR YN 2017

Rydym ni wedi gwrandao ar eich sylwadau o'r ffair yn 2016 ac wedi newid ychydig ar gynllun 2017 ac yn gobeithio y byddwch chi'n ei groesawu. Trwy garedigrwydd Eglwys y Drindod Sanctaidd, rydym ni

ychwaith yn gosod y pebyll mawr wnaeth achosi rhai ciwiau hir i bobl oedd yn aros i weld y stondinau y tu mewn. Roedd hyn yn rhwystredig i'r ymwelwyr a'r arddangoswyr. Felly, bydd llefydd parcio ar gael fel yr arfer ar Stryd Madoc, er hynny, bydd system

## Rydym ni wedi gwrandao ar eich sylwadau

bellach yn gallu cynnal y ffair yn eu heglwys a'r gerddi yn ogystal â defnyddio'r ffyrdd cyfagos, sef Stryd Augusta a'r ddwy ochr o Sgwâr y Drindod gyda rhyw ddwsin o stondinau hefyd yn Neuadd y Dref. Fyddwn ni ddim yn cau stryd Madoc eleni nac

draffig un ffordd er mwyn helpu llif y traffig o faes parcio Canolfan Victoria.

Bydd thema'r Nadolig hefyd yn fwy amlwg er mwyn mynd i hwyl yr ŵyl gyda choed Nadolig a

## CROESO I'N CYLCHLYTHYR RHEOLAIDD NEWYDD

...

### Trigolion a Busnesau Llandudno yn ogystal â Busnesau ac Ymwelwyr o Gymru gyfan:

rydym ni eisiau eich diweddarau ar ddatblygiadau'r ffair aeaf eleni yn Llandudno ac eisiau clywed gennych chi er mwyn inni ddatblygu'r ffair a'i gwneud yn fwy.

**Arddangoswyr:** Mae gennym ni ddwsinau o fusnesau sydd eisoes wedi cadarnhau ar gyfer y digwyddiad eleni. Mae'n rhaid anfon pob cais arall am stondin erbyn Awst y 31<sup>ain</sup> 2017 er mwyn elwa ar y cynnig i **hysbysebu am ddim** ar ein gwefan ac yn y llyfryn gaiff ei argraffu a'i roi am ddim i bob ymwelwr.

**Pobl Leol:** Diolch yn fawr ichi am eich cefnogaeth barhaus tuag at y ffair. Rydym ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi i gyd yno ym mis Tachwedd.

goleuadau o gwmpas yr holl ddigwyddiad.

Fel yr arfer, caiff plant o dan 16 oed ddod i'r ffair AM DDIM gyda thâl mynediad o £2.50 y person i bawb arall.

Bydd hyn yn cyfrannu tuag at ddarparu'r diddanwyr fydd o gwmpas y digwyddiad a thuag at gostau cyffredinol fel goleuadau, diogelwch ac ati gan nad ydy tâl yr arddangoswyr ar ei ben ei

hun yn gofalu am y costau hyn. Fuasem ni ddim yn gallu cynnal y ffair heb y tâl mynediad hwn. Eleni, bydd modd prynu tocynnau o flaen llaw o Swyddfa Docynnau Venue Cymru.

## Cwmni Buddiant Cymunedol

Yn ddiweddar, mae Ffair Nadolig Llandudno wedi'i chofrestru fel Cwmni Buddiant Cymunedol. Felly, beth mae hyn yn ei olygu?

Daeth y ffair, sydd bellach yn 14 oed, yn Gwmni Buddiant Cymunedol ar ddiwedd 2016 fel bod modd ail-fuddsoddi unrhyw beth dros ben o'r digwyddiad er mwyn datblygu'r ffair a pharhau i fod o fudd i fusnesau lleol. Mae trefnu a chynnal digwyddiad o'r maint hwn yn gostus ac yn cymryd dipyn o amser. Felly, mae arnom ni angen eich cefnogaeth chi i wneud yn siŵr fod y ffair yn parhau i fod yn ddigwyddiad

## Bydd arnom ni angen gwirfoddolwyr i helpu yn y ffair

allweddol yn nyddiadur ei hymwelwyr.

Bwriad y cwmni ydy cefnogi busnesau lleol trwy ddod â mwy o gwsmeriaid i'r dref, boed yn bobl leol, yn ymwelwyr am y diwrnod neu yn bobl ar wyliau. Mae'r ymwelwyr hyn yn gwneud gwahaniaeth.

Mae ffurfiau eraill o incwm y mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ceisio cael gafael arno yn cynnwys noddwyr, grantiau a dulliau eraill o godi arian. Mae dau aelod o staff cyflogedig (un llawn amser ac un rhan amser) yn gweithio trwy gydol y flwyddyn yn trafod darpariaeth gwasanaethau, noddwyr,

gwirio bod elfennau Iechyd a Diogelwch wedi'u sicrhau, gwerthiant a marchnata a chynnwys busnesau, plant ac oedolion lleol yn y digwyddiad. Maen nhw hefyd yn gweithio'n galed wrth ddenu arddangoswyr newydd i'r digwyddiad o bob cwr o Brydain ac yn annog busnesau bach Cymreig yn arbennig.

## CWMNIAU TEITHIAU BWS

Cofiwch gynnwys y ffair yn eich taith fws. Mae darparwyr lletygarwch yn Llandudno yn edrych ymlaen at groesawu eich teithwyr a chi i'r dref lan y môr blaenllaw hon.



*Ein bwriad ydy cylchredeg cylchlythyr o leiaf bob yn ail fis cyn Ffair Nadolig Llandudno ar yr 16<sup>eg</sup> i'r 19<sup>eg</sup> o Dachwedd 2017.*



Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:

Barry Mortlock ar 07725 237667 neu Eileen Burrows ar 07830 309733.

Ffair Nadolig Llandudno Rhif Cwmni Buddiant Cymunedol 10470030

Dan ofal 18 Ffordd yr Abaty, Llandudno LL30 2EA.

Gwefan: [www.LlandudnoChristmasFayre.co.uk](http://www.LlandudnoChristmasFayre.co.uk) E-bost: [enquiries@llandudnochristmasfayre.co.uk](mailto:enquiries@llandudnochristmasfayre.co.uk)

Dilynwch ni ar Twitter: @Llandudnoxmas Facebook: @LlandudnoChristmasFayre